NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Thermoplasti bronciol ar gyfer asthma difrifol

19 Rhagfyr 2018

Mae'r driniaeth hon yn gweithio'n dda ar gyfer asthma difrifol ac nid oes unrhyw bryderon difrifol ynglŷn â pha mor ddiogel ydyw.

Mae asthma'n effeithio ar y tiwbiau bach (llwybrau anadlu) sy'n cludo'r aer i mewn ac allan o'r ysgyfaint. Mewn achosion o asthma difrifol, bydd leinin y llwybrau anadlu'n llidus ac wedi chwyddo. Bydd hyn yn lleihau'r llwybrau anadlu ac yn ei gwneud yn anoddach i gludo aer drwodd. Mae'n bosibl y bydd meinwe cyhyrau'r llwybrau anadlu'n tewhau gan gulhau'r llwybrau anadlu hyd yn oed yn fwy. Yn ystod y driniaeth hon, caiff y waliau y tu mewn i'r llwybrau anadlu eu gwresogi gan ddefnyddio tiwb tenau (cathetr). Bydd hyn yn lleihau faint o feinwe cyhyrau'r llwybrau anadlu sydd yn y waliau, er mwyn sicrhau bod llai i grebachu a lleihau'r llwybr anadlu. Y nod yw lleihau'r symptomau.

Gall gwefan y GIG fod yn lle da i gael gwybod mwy. Mae gan ganllawiau triniaethau ymyriadol NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

**A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?**

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

**Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt**

- Beth yn union yw’r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights

- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN: 978-1-4731-3088-3

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights